YR ATODLEN

RHAN 4

GWYBODAETH Y MAE EI HANGEN MEWN FFURFLEN FLYNYDDOL

10. Ar gyfer pob person a ddechreuodd gael ei gyflogi yn yr ysgol neu y daeth ei gyflogaeth i ben ers dyddiad y ffurflen ddiwethaf at yr awdurdod cofrestru—

(a) enw llawn y person ac unrhyw enw blaenorol a fu ganddo;

(b) rhyw'r person, ei ddyddiad geni, ei rif Yswiriant Cenedlaethol ac ym mha swyddogaeth y caiff ei gyflogi;

(c) ym mha le y mae'n athro, ei gymwysterau a datganiad ynghylch pa un ai ef yw'r pennaeth, a yw'n athro llawnamser, neu'n athro rhan-amser; ac

(ch) cadarnhad ei fod ef wedi derbyn Tystysgrif Ddatgelu ar y lefel briodol a roddwyd gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cadarnhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant.